# DWY O
# GERDDI
# NEWYDDION,

Y GYNTAF,

Oddiwrth Ensampl Pyscodyn yn cynnwys amryw Gynghorion i bawb i arwain Buchedd dduwiol, gan na wyddant pa awr y gelwir hwynt i roi Cyfrif. Ar y don a elwir *Anhawdd ymadael.*

YR AIL

Cerdd yn gosod allan am Yr hen dadau a gafodd ei gwaredu trwy weddî er anog y rhaî sydd yn ei galw ei hunain yn gristnogion nad Esgeulusont weddio. Gweddiwch ynddibaid *Thesol.* v. 17.

---

MWYTHIG,
Argraphwyd agn STAFFORD PRYS, tros *Hugh Efans*,
1765.

Ahyn rwyi yn ysbysu i chwi y cymru mwynion mae yn symrud drwy genad Duw ach gynorthwy chwithau osod yn argraphwasg Llyfr a elwir tyrad a chroso at Jesu Grist fe ddaw allan gyn gyntad ac geirdigon o gynorthwy gan ich ufydd wasanaethw.

*Hugh Evan* Baledwr.

S. DAV. COLL. SALISBURY LIBRARY WALES & MON.

## Yr AIL GERDD.

1 COfia dreigl y pyſcodyn,
Mae Naturiaeth iddo yn Elyn :
Y Llynn ffeindia ei Ffanſi i nofio,
Tybycca fydd y Rhwyd am dano.
2 Y Pechod mwya wyti yn garu,
Tydi a wyddoſt pa un ydi ;
Rhaid itti naill ai daflu ymaith,
Ai mynd dy hun tan Farn Marwolaeth.
3 Gocnel ddirwyn at dy Letty,
Anheilwng Elw er cadw Teulu ;
Hwy yn cael y mwya o'r ennill dibaid,
A thithau yn talu am dano dy enaid.
4 Tri o weiſion ſy i'r Byd bychan,
Un i Dduw a'r llall i Satan ;
Ac un i'r Byd, a'i Bethau pwdwr,
Pa un o'r tri ſydd oreu ei Gyflwr.
5 Dewis fod yn was ufuddedd,
I Fab Duw ſy'n llawn Trugaredd,
Cai yſcafn waith a meiſtr rhywiog,
A gwell na phunt bob dydd o Gyflog.
6 Cofia un gair cyn gwneuthur pechod,
Pwy ſy'n gweled, pwy ſy'n canfod,
A phwy a dal, a phwy gwnai gyfri,
A pheth yw'r gyflog ſydd am bechu.
7 Peidio wneit ti a llawer pechod,
pedfai ddyn neu ddau yn dy ganfod ;
Nid wyti'n rhuſio ond mawr dy ffoled,
Er bod Brenhin Ne yn dy weled.
8 Di ofni lawer byd o bethau,
Na ddaw flwyddyn, neu byth os happiai,

Nid

X205091244

Nid wyti yn meddwl gan drafferthu
Mo'r peth a eill fod cyn y foru.
9 Di gei weled rhoi yn y taflau,
Dy holl weithredoedd gwaetha a gorau,
Ond dyna 'r fan y bydd dychryndod,
Rhag mynd o'r Fantol efo 'r pechod.
10 Un gweithred dda mor werthfawr ydy,
Iw rhoi yn y clorian y pryd hynny,
Ac mor edifar a fydd hefyd,
Na adawsit rai o'r lleill heb wneuthud.
11 Wel dyma 'r dydd sydd werthfawr itti,
Ystyria'r Fael sy gael neu golli,
Ni chei di ond amser byrr i chwarau,
Am well na deugain mil o bunnau.
12 Ond ffol yw'r Gwr a chwario yn llawen
Y fodrwy aur am fodrwy frwyneu,
Ond dyna chwareu anghyfaddas,
Foeill y Brenhin golli 'r deyrnas,
13 Ni chweru'r byd a'i ddisiau canniad.
At ddim a feddych ti ond yr enaid,
Y byd yn taflu a'r diawl yn betto,
Ond tost yw'r fan lle rwyt ti yn mentro.
14 Cleddeu gwerthfawr wedi ei oreuro
Yn y maes mae pwynt iw daro,
Ond ffol yw'r dyn nid oes mo'r ammeu,
A gadwo 'r wain a gwerthu 'r cleddeu,
15 Pob hen bechod wedi pasio,
Er ys dyddiau aeth yn ango,
Fo ddaw i'r farn a'i witnes hefyd,
Y dydd a'r awr a'r man a'r munud.
16 Goreu peth i doddi pechod
Ydyw ymddiddan a chydwybod,
Y sawl a wnelo ei chyngor mwynedd

Me

Mae iddo addewid am drugaredd.]
17 Rhag dau bechod gwilia eu calyn,
Nid oes nawdd na help am danyn,
Amobeithio Duw am ei addfwynder;
Ac iwſo ei enw mawr yn ofer,
18 Dydi ydyw'r Nefoedd os yſtyri
Dych ydyw Uffern os ei iddi ;
Dydi ydyw'r cnawd a'r Enaid truan,
Dydi ydyw'r Fyd i ti dy hunan.
19 Mae dy ddyddiau wedi eu rhifo,
Yn y Byd cyn dywad iddo;
Mae'n ſefyll ar bob diwrnod yma,
Ddeg can mlynedd o'r oes neſa.
20 Wrth y dydd am gyflog bychan,
Yr oedd y gweithwyr yn y wînllan,
I gael talu i bawb yn gyfion,
Fo roed yr awr ar lawr yn union.
21 Mae'r dydd yn mynd ar nos yn dwad,
Gweithio yn hono nid oes gennad,
Anodd diwygio un drygioni,
Heb nerth ſynwyr y goleuni.
22 Yſtyria'r diwrnod yr wyti ynddo,
Ni weli byth ond hynny mono,
Y Dydd y deſt i'r Byd yn egwan,
A'r llall yr ai di o hono allan.
23 Rho dy galon i fyfyrio,
Ar ba faint a'th oes aeth heibio,
A pheth a wneuſt bob dydd ohni,
Duw'n dy blaid mae yn rhaid rhoi cyfri,
24 Di gofi yn fynych Swllt neu goron,
A fo it' o ddyled ar Gymdogion,
Nid wyti yn meddwl hŵyr na boreu,
Mor ddyled fawr ſydd arna tithau     15 Mae

25 Mae itti warning rhaid iw 'mado,
Er na feddych di ond yr amdo,
I ba le yr ei a phwy a'th dderbyn,
Y noeth yn wan heb feddu gronyn.

26 Mae un diwrnod wedi i bwyntio,
Y cei di nawdd os doi di i geiſio,
Gochel dithau fod mor angall,
A gollwng hwnnw fel dydd arall.

27 O ddydd i ddydd mae dy oes di yn myned
O gam i gam yr wyti yn cerdded,
Ond trwm yw'r dydd ſy heb dranoeth iddo,
A'r cam heb ail lle yr ei di i dario.

28 Nid oes un diwrnod itti ond heddyw,
I rio dy Gownts ar lawr a'i bwrw,
Y foru yn gwneuthur cyfri manwl,
O flaen y gwr a wyr y cwbwl.

29 Pan wypo gwr y coll ei dyddyn,
Fo fydd digon ſiwr o ymofyn,
Am le arall i fynd iddo,
Cyn yr el o'r man y bytho.

30 Mae dau lwybr itti yn amlwg,
Un i'r goleuni a'r llall i'r Twilwg,
Yſtyria yn fanwl wrth ei cerdded,
I ba un o'r ddau yr wyti yn myned.

31 Llawer dydd o'th oes aeth heibio,
Yſtyia beth a wneiſt o hono;
A roiſt yr un o'th ddechreu i'th ddiwedd,
I daear ymbil am drugared,.

32 Na charia galon anfodlongar,
O achos dim ſy ar wyneb ddaear,
Ni waeth iti coſia yn fanwl,
Dy ladd a'th law na'th ladd a'th feddwl.

33 Yr un meddwl ag y fytho, Gennyt

Gennyt am Dduw tra fect di yn



Gennyt am Dduw tra fech di yn effro,
Felly y bydd yn wir ddiamau,
Feddwl Duw am danat tithau,
34 Yſtyria hyn o falet noethlyd,
Yn dy galon gyda i dwedyd,
A rhodia yn ol y ffordd yn groyw,
Ti a fyddi yn barod pan ddel galw.
35 Cadw hyn o gyngor bychan,
Y peth ne's gwneûthyn i ſy hunan,
Ond pwy ſy well i ddyſcu'r llwybrau,
Na'r hwn a fu yn eu colli weithiau.
36 Càn ffarwel, Duw a'th fendithio,
Hyn o Gynghorion cais eu cofio;
Hwy wnan ſwy diddanwch itti,
Na'th holl bleſſer ddydd dy gyfri.

1 O Arglwydd nefol oth drygaredd
Mi agora ngena mewn gwirionedd,
Ar air o gyngor i rai gweiniad,
O riw gany os rhoi di genad,
2 Yr um ni bob awr ſmewn mawr beryglon,
Ag yn angynas mewn anghenion
Ag maŷ 'n angenreidiol ini,
Ym ofun peth am yſpryd gweddi,
3 Saint Jago ſû'n mynegi, *Jago*, v. 16.
Maŷ Llawer iawn a ddichon gweddi,
Addelo yn beraidd hwyr a borau,
Mewn eu liniad on calonau.
4 Nid ffirfiol weddi arſlayn y tafod,
A dâl iw dweud oſlaun y drindod, ‖ *Math* vii. 21.
Nid pawb Sûn dwydyd arglwydd arglwydd ‖
Su'n Mynd yn Lân ir mawr Lawenydd.
5 Ond y rhai ſy a phur galonau *Math*. v. 8.
I gid yn Santaidd megis Seintiau,
Wedi golchi ei gwiſg ai calon.
Yngwaed Criſt ai Driſt archollion.
6 Os wyti yn clywed bauch dy bechod, *Math*. xi. 28.
Yn ormod camwedd i gayl cymod,
Geill Jeſu Griſt dy wneyd yn holliach,
Ond itti grefu ato yn gryfach.
7 Trwy weddi ddwys o ddyfnder calon,

Y gwaredwyd y Duwiolion, *Salm* xxii. 45.
Ag ai tynwyd oi cadwyna,
Trwy riw foddion or rhyfedda

8 Wrth weddio cafodd mosus
Nerth gan dduw i fod yn rymus,
fe a aeu trwy'r môr ar holl Jsrailiad, *Exod*, 14.
A pharo ai fyddin yno afoddad.

9 Gweddi Josua yr yn moddion *Josua*. x. 12, 13
A wenyth galanedd or gelynion,
Ar haul or Lleuad yno â safodd,
Nes Lladd or arglwydd y cenhedloedd

10 Dwfr a ddaeth i Samson frenin
Trwy weddi wresosg ô e'n yr asun. *Barn*, xv, 18.
A nerth i ymddial ar ffilistiaid *Barn*, xvi. 28.
O herwydd iddynt dynu ei Lygaid.

11 Fe gafodd Hana fab iw henwi, 1 *Sam*. i. 10.
Gan dduw tragwyddol ond rhoi gweddi
Rhown nina weddi mewn crediniaeth *Ezec*. 36. 26.
Cewn galon newydd byrffudd berphaith.

12 Pan oedd Dafudd yn ymgiddio,
Rhag fôl Eger yn yrogo 2 *Sam*. xxiv. 4
Fe a gadd yn hynod wedi hynŷ,
Trwy weddi Radol ei waredu.

13 Elias oedd yn ddyn fel nina 1 *Bren*, xvii 1.
Yn Rhaid ynysdig ddiddig ddiodda,
Na bydda glaw gweddia yn dyner, *Jago*, v. 17. 18.
Ag ni bŷ glaw dair blwydd a haner.

14 Er bod hyny yn arwydd hynod,
Nad oedd yn achyb ond duw oddi uchod,
Eto yr oeddynt hwy a nina, 1 *Bren*. xvii. 21.
Yn carŷ baal ai sal blesere.

15 Câdd Hezeciah bymthag mlynedd, *Esay*. xxxviii. 23.
I fuw yn ei Deurnes mewn anrhydedd,
Er bod yr ang a ymronu ym ddangos,
Yr oydd yr arglwydd dduw yn agos.

16 Fe a gafodd Jabes ei fendithio, *Cron*. iv 10.
Fel yn gyson yr oedd yn Ceisio,
O ŷn galon Down heb Celu,
Fel dâ ddeiliad iw addoli.

17 Elufeus y prophwyd flyddlon 2 *Bren*. vi, 17, 20.
A waredwyd Rhag ei Elynion

A gweddi Jeremi o waelod Dauer *Jer.* xxxviii.
Ai dûg ef allan oi orthrymder,
18 Gweddi'r llang ciau or ffwrnes danllyd. *Dan.* iii. 21
Gweddi Danial or ffâu enbyd, *Dan.* vi. 16.
Gweddi Jona o fol pysgodyn, *Jona.* ii, 1.
Gweddi Paul e silas Rhyngddyn. *Actau.* xvi. 25.
19 Nid oes mor amser yma i dreuthu *Heb.* xi. 32.
Am Lawer erell gida hyny,
Y rhai sydd dysdion doethion detha,
oth drugarhedd arglwydd gora.
20 ond Jesu Grist iw drws y rhinwedd *Jean* x. 9.
A gweddi iw agoriad yrdigaredd,
Mae ymysgaroedd o dosduri *Salm* cii.i 13.
Gan fab duw at isal weddi,
21 A hynny ymrown o ddysnder calon,
I eddoli'r Arglwydd tirîon,
Ag ymbwuswn ar ei haiddiant, *Joarr.* xv. 8.
Gan sy w heb gwuno iw o goniant.
22 O Down trwy ffydd oi flayn tan riddsarn,
Ni chawn ni byth ein taflu allen, *Heb.* xi. 6.
Bob awr ni a gawn fawr groeso.
A ddel at Grist nid eiff oddi wrtho. *joan.* vi. 37.
23 Curwch wrth y porth o ddifr'i. *Math.* vii. 7.
Medd duw goruchel fe a agorir chwi,
O mor ! barod ydi'r brenin,
Na fudd dith a yn anghedadwn. *joan.* xx. 27.
24 Y tad pan agafu yr afradlon, *Luc.* xv. 20.
Ai cusonodd fel gwas inion, *Luc.* x. 30.
Ag er ein bod ni y mlith y lladron,
Daw mab Duw in gwneyd yn rhyddion:
25 Erir offeiriad dy adel yno,
Ag ir Lefiad fyned heibio, *Luc*: x. 31, 32, 33.
Fe a ddaw'r Samariad diswyl wrtho.
A gweddia yn ddyfal arno.
26 Duw oi ras afotho yn nerthu,
Pawb i ogwyedo at yspryd gweddi,
A dod dy law yn dyn am danom,
Ag na ollwng ni Lle mynom
27 Ffarwel a fotho i chwi weithan,
Mewn gwir amynedd gym u mwynlan,
Duw ach dyco chwi a minna,
Ir wlad o Lewurch Haleluia.

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY